

YMCHWILIAD CRAFFU – GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG

CWESTIYNAU AR GYFER AWDURDODAU ADDYSG ERAILL AM EU TREFNIADAU AR GYFER GWASANAETHAU CEFNOGOL

Mae grwp o aelodau o Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwiliad craffu i fewn i Wasanaethau Cefnogol Addysg (Atodwyd copi o sgôp yr Ymchwiliad)

Un o'r meysydd y mae'r aelodau yn eu hystyried yw'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yng Ngwynedd a Mon gan Gwmni Cynnal. Mae hynny'n cynnwys cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth amrywiol, cefnogaeth systemau (fel SIMS) a datblygu adnoddau dysgu.

Mae'r aelodau yn awyddus i gael gwybod pa fath o fodolau eraill sydd yn cael eu defnyddio ar draws Awdurdodau Addysg Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath i weld a oes rhywbeth y medrwn ei ddysgu ac efallai ei newid o ran ein trefniadau lleol.

Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddech yn medru cymryd ychydig o amser i esbonio mewn e-bost ataf pa fodel yr ydych yn ei ddefnyddio i ddarparu'r math hynny o wasanaethau yn eich ardal chi, a ydych yn hapus gyda'r hyn y mae hynny'n ei gynhyrchu ac a oes yna unrhyw fwriad ganddynt i adolygu hynny.

Os oes rhywbeth diddorol ac arloesol yn eich trefniadau, efallai y byddai'r aelodau yn dymuno eich holi ymhellach amdano.